



YR WYDDFA

# CYNLLUN PARTNERIAETH YR WYDDFA

Strategaeth gydweithredol, hirdymor ar gyfer Yr Wyddfa


1,085M 3,560T 53° 4' 6.6252" G 4° 4' 34.5227" GN

4 Rhagair

7 Cyflwyniad

14 Yr Wyddfa Heddiw

37 Mesur llwyddiant

40 Y daith

42 Cynllun gweithredu

50 Cadw golwg ar gynnydd

56 Ein partneriaid a'n rhanddeiliaid

63 Ffynonellau gwybodaeth

© 2018 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cynhyrchwyd ar ran Partneriaeth Yr Wyddfa gan Helen Pye (APCE) a Milestone Tweed

# > rhagair

Emyr Williams, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



Darlun Lili'r Wyddfa ©Joanne Glover

Rydym yn dechrau ar gyfnod diddorol o ran rheoli lleoedd arbennig fel Yr Wyddfa, ar adeg pan fo dealltwriaeth, parch a chonsensws ar y ffordd ymlaen yn allweddol. Ni all unrhyw unigolyn na sefydliad oresgyn yr heriau a manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi yn yr ardal ar ei ben ei hun, felly fel cyrff, busnesau ac unigolion, sy'n gweithredu yn yr ardal, rydym wedi dod at ein gilydd i greu cynllun ar y cyd. Bydd y cynllun yn llywio'r ffordd yr ydym yn gweithio yn yr ardal yn y dyfodol.

Mae Eryri a'r Wyddfa yn adnabyddus ar y llwyfan rhyngwladol ac adnabyddir yr ardal hefyd fel lle ysbrydoledig a hudolus. Ond mae'n rhaid cofio hefyd bod ardal Yr Wyddfa yn gartref i bobl a chymunedau ffyniannus a hefyd yn weithle i lawer o'r trigolion. Ein bwriad drwy'r Cynllun yw sicrhau bod Yr Wyddfa nid yn unig yn lle ysbrydoledig i ymweld â hi, ond hefyd yn ardal ysbrydoledig i fyw a ffynnu ynddi.

Mae'r ddogfen hon yn codi nifer o faterion ac ystyriaethau, ac yn ymwneud yn arbennig â sicrhau bod y mynydd ei hun, ei bobl, ei gymunedau, y bywyd gwyllt a'r rhai sy'n dod yma i fwynhau ei hud yn cael y profiad gorau posibl, ond yn ymdoddi i'r gymuned ar yr un pryd. Trwy ddeall a gwerthfawrogi cyfraniad a blaenoriaethau pawb, gallwn symud ymlaen gan gefnogi ein gilydd.

Yr hyn y mae'r broses ymgynghori wedi ei ddangos i ni yw bod gwahanol grwpiau a rhai â gwahanol fuddion yn cydweld ar nifer fawr o'r materion a'r cyfleoedd y mae'r ardal yn eu cynnig, er nad ydynt yn cytuno'n llwyr ar bopeth. Yn dilyn y penderfyniad ar Ewrop, bydd hyn yn gynyddol bwysig wrth ystyried sut i gydweithio i ddenu adnoddau ar gyfer pob agwedd ar reoli'r Wyddfa.

Diolch am edrych ar y cynllun hwn i sefydlu Partneriaeth ar gyfer Yr Wyddfa. Edrychwn ymlaen at gydweithio i gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol oddi fewn.

# Moelni

## T.H.Parry-Williams

Nid oedd ond llymder anial byd di-goed
O gylch fy ngeni yn Eryri draw,
Fel petai'r cewri wedi bod erioed
Yn hir lyfnhau'r llechweddau ar bob llaw;
A thros fy magu, drwy flynyddoedd syn
Bachgendod yn ein cartref uchel ni,
Ymwasgai henffurf y mynyddoedd hyn,
Nes mynd o'u moelni i mewn i'm hanfod i.
Ac os bydd peth o'm defnydd yn y byd
Ar ôl yn rhywle heb ddiflannu'n llwyr,
A'i gael gan gyfaill o gyffelyb fryd
Ar siawns wrth odre'r Wyddfa 'mrig yr hwyr,
Ni welir arno lun na chynllun chwaith,
Dim ond amlinell lom y moelni maith.

© Ystâd T. H. Parry-Williams
Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gwasg Gomer

# Syniadaeth 'Moelni'

T. H. Parry-Williams (1887 – 1975) yw un o lenorion mwyaf dylanwadol Cymru. Cafodd ei eni yn Rhyd Ddu a'i gladdu ym Meddgelert wrth droed Yr Wyddfa. Roedd Yr Wyddfa yn aml yn ganolog i'w waith.

Mae lle cynnes iawn i'w gerdd Moelni yng nghalon y Cymry a'r rhai sy'n caru Eryri. Gyda'i thema o gariad at y filltir sgwâr a gallu pobl i uniaethu â'u cynefin, mae'n cyflwyno darlun o berthynas rhwng Yr Wyddfa a'i phobl.

Mae'n portreadu'r Wyddfa fel lle moel a diffaith ('llymder, anial, byd di-goed') ac yn cymeriadu'r Wyddfa ac Eryri fel cewri chwedlonol a ffurfiodd y wlad hynafol â'u dwylo eu hunain ac a oedd yn gwarchod y bardd yn ystod ei fagwraeth.

Mae'r gerdd yn dangos y gyfriniaeth ym mhatrwm bodolaeth Eryri sydd wedi creu cymaint o argraff ar y bardd fel ei fod yn rhan annatod ohono.

Mae'r teimlad nad rhan o dirlun yr ardal yn unig yw'r Wyddfa, ond rhan o fytholeg, o hanes ac o bresennol pob un ohonom sy'n caru'r mynydd yn dangos pwysigrwydd a rhamant y dirwedd chwedlonol hon i bob un ohonom.

Mae'r syniad hwn o ramant yn agos i'n calonnau a dyna pam mae'r Bartneriaeth mor awyddus i ofalu am Yr Wyddfa a pham ein bod wedi paratoi'r cynllun hwn.

Diolch i Gydbwyllgor Addysg Cymru am ei gyfraniad at ddadansoddiad Moelni



Tormaen porffor (*Saxifraga oppositifolia*) ©Helen Pye, APCE



# > Cyflwyniad



# Croeso i Gynllun Partneriaeth Yr Wyddfa

Mae’r Wyddfa yn fynydd eiconig sy’n adnabyddus dros y byd i gyd. Mae’n gartref i gymuned fywiog, egnïol, ac i fusnesau a mannau gwaith arloesol yn ogystal â chlytwaith o ffermydd mynydd. Mae'n ased genedlaethol a hwn yw mynydd mwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig o ran ymwelwyr. Mae'n denu pobl o bob cwr o Gymru, y DU, ac o bob rhan o'r byd. Mae gofalu am Yr Wyddfa yn waith cymhleth ac mae cydweithio agos yn hanfodol ar gyfer ei wneud yn llwyddiannus.

## Datblygwyd y cynllun hwn gan Bartneriaeth Yr Wyddfa, grŵp cydlynol o sefydliadau sy'n cydweithio'n agos â’i gilydd ar Yr Wyddfa ac o’i chwmpas, gan gydnabod manteision cydweithio, sef bod modd cyflawni mwy er budd pawb trwy weithio gyda’n gilydd.

Ceir rhagor o fanylion ynghylch y partneriaid ar dudalen 53.

Hwn yw’r cynllun partneriaeth cyntaf ar gyfer Yr Wyddfa. Mae’n dangos:

- **ein gweledigaeth ar gyfer gweithio gyda’n gilydd i ofalu am Yr Wyddfa a gwneud yr ardal o’i hamgylch yn lle gwych i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.**
- **ein llwyddiannau hyd yma, sydd wedi’u hadeiladu ar ymrwymiad ac ymdrech y partneriaid dros y blynyddoedd**
- **sut y byddwn yn parhau i gydweithio i gyflawni ein gweledigaeth**
- **sut y byddwn yn monitro ein cynnydd a gwybod pan fyddwn wedi llwyddo**
- **Bydd y Cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio fel teclyn i ddenu buddsoddiad mawr i'r ardal, ac i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol y mynydd.**

Nid ydym yn credu bod gennym ateb i bopeth ac rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau pobl eraill sy’n gwerthfawrogi'r mynydd ac a fyddai’n gallu cyfrannu at ein gweledigaeth. Dyna pam yr ydym, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori eang er mwyn gallu magu consensws. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda phobl a sefydliadau i ganfod eu barn ac i ddeall sut y gallwn weithio’n agosach gydag eraill y mae’r Wyddfa yn bwysig iddynt. Rydym wedi casglu syniadau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau i ffurfio’r dystiolaeth sydd yn y cynllun hwn. Ceir rhestr o ffynonellau ein data yn adran olaf y ddogfen hon.

## Ardal y cynllun

Pan fyddwn yn sôn am ‘Ardal y Cynllun’ yn y ddogfen hon, gellir ystyried hyn yn gyffredinol fel tirfas masiff Yr Wyddfa, sydd wedi ei ffinio gan ffyrdd yr A4086, A498 a'r A4085. Fodd bynnag, rydym wedi osgoi tynnu llinell ar fap gan ein bod yn cydnabod bod yr effaith yn llawer iawn ehangach mewn gwirionedd.

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth o nifer o ffynonellau i gasglu’r dystiolaeth sydd yn y cynllun hwn. Ceir rhestr o’r ffynonellau data ar dudalen 61.

# Pum thema blaenoriaeth

Mae’r cynllun hwn wedi ei lunio i sicrhau dyfodol cynaliadwy a chadarnhaol i’r Wyddfa, gan egluro ac amlygu ein partneriaeth, ac rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon hefyd yn fan cyfeirio defnyddiol ar gyfer pawb sy'n dal Yr Wyddfa yn agos i'w calonnau.

Mae’r ddogfen wedi’i rhannu yn saith adran. Mae cyfeiriadau yn yr holl adrannau at y pum thema blaenoriaeth yr ydym ni, sef y Bartneriaeth, wedi’u nodi:

1. Gweithgareddau, Anturiaethau ac Addysg Awyr Agored
2. Seilwaith a Gwasanaethau
3. Yr Economi Wledig a Chymunedau'r Ardal
4. Gofalu am Yr Wyddfa
5. Gwybodaeth i Ymwelwyr a Thwristiaeth

Trafodir y themâu hyn yn fanylach yn y cynllun gweithredu yn adran chwech (tudalen 42). Mae’r cynllun gweithredu hwn yn disgrifio’r gwaith y byddwn yn ei wneud ar y cyd i gyflawni ein gweledigaeth. Rydym yn cydnabod y bydd ein gwaith yn gorfod ymateb i amgylchiadau a fydd yn newid yn barhaus, ac felly bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru bob pum mlynedd er mwyn adlewyrchu newidiadau. Er enghraifft, o ran anghenion ein partneriaid, pobl leol, yr amgylchedd a thueddiadau'r farchnad ym maes twristiaeth.

# Dylanwadau ar Bolisi

Mae’r Bartneriaeth wedi ystyried polisïau sy’n berthnasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol wrth ddatblygu’r cynllun hwn. Mae’r cynlluniau lleol yn cynnwys y cynlluniau rheoli cyrchfan ar gyfer Gwynedd a Chonwy, Cynllun Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri. Ar lefel genedlaethol, rydym wedi ystyried ‘Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer twristiaeth’ Llywodraeth Cymru, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ganolog i’r Cynllun. Mae hwn yn pennu ffordd o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae’r ddeddf yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn bwysig, ar gyfer cynllun partneriaeth, mae’r Ddeddf hefyd yn annog cydweithredu, gwaith cydlynol a chyfranogiad partïon â budd, gan ddarparu sefydlogrwydd felly yn ein byd sy’n newid yn barhaus.


Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa
lleol
cenedlaethol
Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Conwy
Polisïau a Chynlluniau Partneriaid Allweddol
Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd
Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer twristiaeth 2013-2020
Cynlluniau ACA, SoDdGA ac GNC
Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, a Chonwy a Sir Ddinbych
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Cynllun Rheoli (Partneriaeth) Parc Cenedlaethol Eryri

# Ein gweledigaeth ar gyfer Yr Wyddfa

Byddwn yn cydweithio i ofalu am harddwch ac etifeddiaeth eithriadol Yr Wyddfa ac i sicrhau ecosystem iach a chynhyrchiol lle mae gwasanaethau integredig yn cydweithio i ddiwallu anghenion tymor hir yr amgylchedd lleol, cymunedau, diwylliant a phrofiad ymwelwyr.

Byddwn yn gweithredu i warchod ei chymeriad unigryw, gan sicrhau bod pobl yr ardal yn cael eu cynnwys, ac yn cyfrannu er eu budd eu hunain ac er budd yr economi leol.

Ein nod yw gweld pawb yn parchu, mwynhau, deall a gofalu am y mynydd a'i amgylchedd.





Yr Wyddfa
o Ddrws y Coed

gan Kyffin Williams
(1918-2006)

Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd
Prifysgol Bangor

## Ysbryd Yr Wyddfa

Ers miloedd o flynyddoedd, mae pobl wedi rhyfeddu at dirlun creigiog a chopaon geirwon Yr Wyddfa. Gan wynebu peryglon naturiol tywydd gerwin a chyfnewidiol, mae pobl wedi ymdrechu i'w goresgyn trwy ddringo i gopa mynydd uchaf Cymru. Yma hefyd, mae ffermwyr dygun yn brwydro eithafion eu hamgylchedd wrth ddilyn ffordd o fyw sydd yn eu gwaed erbyn hyn. Mae ei llethrau a'i chopa mawreddog yn cynnig profiad na ellir ei gael mewn unrhyw le arall, ac mae bywyd yma yn wahanol i unman arall ar y ddaear.

Mae'n fynydd sy'n llawn chwedlau, rhamant a golygfeydd godidog. Ceir gwyntoedd cryfion yn chwipio'r creigiau a'i chynefionedd, a'r glaw yn arllwys un munud gan ildio i gynhesrwydd tanbaid yr haul y munud nesaf. Cael cip ar gopa'r Wyddfa oedd ffordd ffermwyr yr ardal o ddarogan y tywydd am ganrifoedd. "Pan fyddo'r Wyddfa'n gwisgo'i chap, does fawr o hap am dywydd".

Mae iaith a diwylliant yr ardal yn rhedeg drwy ei gwythiennau caregog, ar hyd holltau ei chreigiau ac yn byw a bodoli o'i chwmpas. Mae Draig Goch Cymru yn cysgu oddi tani, a'r Brenin Arthur yn swatio mewn ogof gudd, y ddau ohonynt yn aros am yr alwad i ddychwelyd.

Mae rheoli ei harddwch a'i chyfrinachau yn dasg heriol iawn, o gofio ei hanes godidog a gobeithion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gyfrifoldeb sy'n gofyn am gydweithredu ac am ymrwymiad pobl a sefydliadau sydd wir yn angerddol dros ofalu am Yr Wyddfa. Dyma'r bobl sy'n cynrychioli Partneriaeth Yr Wyddfa a hwn yw eu cynllun i sicrhau y bydd Yr Wyddfa ar ei gorau, yn awr ac am byth.